**Feirws Papiloma Dynol (HPV):**

- Mae HPV yn firws cyffredin iawn y mae'r rhan fwyaf o fenywod yn ei gael ar ryw adeg yn eu bywyd
- Mae sawl math gwahanol o HPV sy’n effeithio ar yr ardal yr organau cenhedlu. Gellir eu rhannu yn:
- HPV gwenerol risg isel – ddim yn achosi canser ceg y groth ond gall achosi problemau eraill fel dafadennau gwenerol
- HPV gwenerol risg uchel – gall achosi newidiadau i gelloedd ceg y groth a all ddatblygu'n ganser ceg y groth. Gelwir y newidiadau hyn yn Neoplasia Mewnepithelaidd Serfigol (CIN).

**Profi am HPV**

- Gall profion sgrinio rheolaidd (prawf ceg y groth) nodi newidiadau i gelloedd ar geg y groth a achosir gan HPV risg uchel
- Mae prawf ar gyfer HPV risg uchel sy'n edrych am y firws yng nghelloedd ceg y groth. Cynhelir y prawf hwn gan ddefnyddio'r un sampl o gelloedd a gymerwyd yn ystod eich prawf ceg y groth.

**Bydd prawf yn cael ei gynnal:**

- pan fydd canlyniad sgrinio menyw yn dangos newidiadau bach
- ar gyfer rhai merched sydd wedi cael eu hatgyfeirio i glinig colposgopi
- ar gyfer merched sydd wedi cael triniaeth am CIN

- Os **na chanfyddir** HPV byddwch yn cael eich gwahodd i gael eich sgrinio eto ymhen tair neu bum mlynedd gan mai risg isel sydd gennych o ddatblygu newidiadau i gelloedd ceg y groth.

- Os **canfyddir** HPV efallai y byddwch mewn mwy o berygl y bydd newidiadau i'r celloedd a byddwch yn cael eich cyfeirio at glinig colposgopi

**Mwy o wybodaeth am HPV**

- Gall **unrhyw** un sydd erioed wedi bod yn actif yn rhywiol gael ei heintio â HPV. Bydd pedwar o bob pump (80%) o bobl yn cael eu heintio â HPV gwenerol ar ryw adeg yn eu bywydau.

- Er nad oes triniaeth ar gyfer HPV, mae system imiwnedd y corff fel arfer yn clirio'r haint heb wneud unrhyw niwed.

- Mae HPV yn cael ei drosglwyddo'n hawdd rhwng dynion a merched a rhwng partneriaid o'r un rhyw trwy gyswllt croen-i-groen. Rydych yn dal mewn perygl o gael HPV hyd yn oed os nad ydych yn cael rhyw treiddiol.

- Nid yw'r firws risg uchel yn dangos unrhyw symptomau, sy'n golygu nad yw pobl sydd â'r haint yn gwybod bod yr haint ganddynt. Efallai bod rhywun wedi cael HPV ers blynyddoedd lawer heb wybod amdano.

- Efallai bod partner wedi'i heintio flynyddoedd ynghynt

- Mewn rhai merched nid yw'r corff yn clirio'r haint a dyma pryd y gall annormaleddau yng ngheg y groth ddatblygu'n ganser os na chaiff ei drin

**Beth allwch chi ei wneud:**

- Ewch am eich prawf sgrinio (ceg y groth) **bob** tro y cewch eich gwahodd.

- Rhoi'r gorau i ysmygu, gan fod ysmygu yn cynyddu eich risg o gael canser ceg y groth.

**I ddarganfod mwy ewch i:**

**www.cervicalscreeningwales.wales.nhs.uk**neu siaradwch â'ch nyrs practis neu'ch meddyg teuluhttps://www.helpafiistopio.cymru/
**HELPA FI I STOPIO – 0800 085 2219**

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English**